

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd

2015 - 2030

**Papur Cefndir 12**  
Iaith Gymraeg

**Medi 2019**  
**LDP-EBD-BP12**

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir	3
3. Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi	3
4. Asesu'r angen am bolisi CDLI penodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint	6
5. Crynodeb a Chasgliadau	10
Atodiad 1 Canran Cyfrifiad 2011 o Siaradwyr Cymraeg fesul ward yn Sir y Fflint	12
Atodiad 2 Canlyniad AoG/AAS yn ymwneud â'r iaith Gymraeg	15
Atodiad 3 Astudiaeth Cynhwysedd Trefol: asesu'r effaith debygol gan hap-ddatblygiadau ar yr iaith Gymraeg	23
Atodiad 4 Sir y Fflint yr Achos dros Bolisi Cynllunio Iaith Gymraeg/ Flintshire - the Case for a Welsh Language Policy	27

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fydd yn llywio datblygiad yn y Sir rhwng 2015 a 2030. Bydd y CDLI yn adnabod lleoliadau arbennig lle y caniateir datblygiadau newydd, megis tai a chyflogaeth, ac ar yr un pryd bydd yn ceisio gwarchod ardaloedd eraill rhag datblygiad. Wedi'i fabwysiadu, bydd y CDLI yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio unigol yn y Sir.
- 1.2 Mae'r papur cefndir hwn yn un o amryw o bapurau a baratoir i gefnogi'r CDLI adneuo ac mae'n egluro rhesymeg a dull y Cyngor o benderfynu ar yr agwedd bolisi i'r Iaith Gymraeg. Gellir darllen pob papur cefndir fel papur ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo a'r papurau pwnc cynharach a phapurau cefndir eraill a baratowyd.
- 1.3 Diweddarwyd y Papur Cefndir hwn yn unig i'w gynnwys fel atodiad (Atodiad Rhif 4) i'r adroddiad "Sir y Fflint yr Achos dros Bolisi Cynllunio Iaith Gymraeg". Ni wnaed unrhyw newidiadau i gynnwys y papur cefndir sy'n parhau i fod yn unol â Phapur Cefndir y Cynllun Adnau Medi 2019.

## 2. Cefndir

- 2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) yn gosod allan polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC) wedi'u hategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Amlinellir polisi cynllunio LIC ar yr Iaith Gymraeg yn Adran 3.25 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC Rhagfyr 2018) gyda chymorth Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Lleol a Rheolaeth Gynllunio (2017) sy'n rhoi canllawiau pellach ar sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynhyrchu cynlluniau neu wneud penderfyniadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r Iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles. Mae'r papur cefndir hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi dilyn y canllawiau wrth asesu'r angen am bolisi penodol ar yr Iaith Gymraeg yn y CDLI adneuo.

## 3. Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

- 3.1 Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol perthnasol a ystyriwyd wrth baratoi'r CDLI. Rhoddwyd sylw i'r themâu allweddol mewn polisi cenedlaethol, yn ogystal â'r materion sy'n benodol i'r Sir, a ystyriwyd fel rhan o benderfynu a oes angen polisi penodol lleol yn y CDLI adneuo.

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 3.2 Am y tro cyntaf mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol i'r Iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Gyda'i gilydd mae Adrannau 11 a 31 yn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ystyriaeth gyson a phriodol wrth baratoi cynlluniau datblygu, a gwneud penderfyniadau cynllunio. Yn

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyflwyniad Datblygu Lleol**

**Adneuo Sir y Fflint**

arbennig mae Adran 11 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn orfodol ar bob awdurdod cynllunio lleol i ystyried effaith eu Cynllun Datblygu Lleol ar yr iaith Gymraeg, drwy wneud asesiad priodol fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) y cynllun. Mae hefyd yn mynnu bod awdurdodaucynllunio lleol yn cadw tystiolaeth wedi'i diweddar o'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)**

- 3.3 Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau fod trefniadau llywodraethiant cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae gwarchod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy'r nod llesiant canlynol:

***"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden".***

**Polisi Cynllunio Cymru argraffiad 10 (Rhagfyr 2018) )(PCC)**

- 3.4 Mae PCC yn datgan fod "y Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu" (parag 3.25). Mae'n datgan hefyd ym mharagraff 3.26 fod yn "rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd" ac ym mharagraff 3.27 "Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisiau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhwngweithio â pholisiau eraill." Yn olaf mae PCC yn datgan hefyd "Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu."

**Nodyn Cyngor Technegol 20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg**

- 3.5 Mae TAN 20 yn nodi ym mharagraff 1.76.2 "Mae nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg wedi eu gosod yn Strategaeth y Gymraeg - Cymraeg 2050. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i ddarparu cyfleoedd hawdd i'w cyrraedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi fod rhaid creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer hybu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ewyllys da tuag at yr iaith a darparu isadeiledd iaith megis technoleg a deddfwriaeth, ond mae'n ymwneud hefyd â sicrhau dyfodol economaidd a chymdeithasol i gymunedau Cymraeg eu hiaith"

- 3.6 Er bod y gofyniad eang hwn i gefnogi'r iaith Gymraeg wedi cael ei drosi o'r strategaeth uchod gan y Ddeddf Llesiant, mae'n bwysig deall i ba raddau y mae cynllunio defnydd tir wedi ac yn cael dylanwad yn y modd y rhagwelwyd uchod. Er enghraift mae TAN 20 yn datgan ym mharagraff 1.7.3 "Bydd dyfodol yr iaith ledled Cymru yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau tu hwnt i'r system gynllunio

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyflwyniad Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

*gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Er enghraifft, mae creu'r amgylchiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda ac ystod eang o dai o safon yn greiddiol i gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy."*

- 3.7 Gan gysylltu'r pwynt hwn â strategaeth CDLI Sir y Fflint, un nod greiddiol o'r Cynllun yw creu amodau ar gyfer twf economaidd sy'n arwain at greu cyfleoedd gwaith. Gwelir y sir fel gyrrwr economaidd i economi Gogledd Ddwyrain Cymru, Gorllewin Sir Gaer a Chaer ac adlewyrchir hyn yn nynodiad Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Cynllun defnydd tir yw'r CDLI sy'n anelu at greu'r amodau yn y Sir a fydd yn cefnogi a hwyluso'r twf economaidd yn unol â gofynion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft a Gweledigaeth Dwf Gogledd Cymru.
- 3.8 Mae TAN 20 yn cynnig canllawiau ar sut y dylai'r system gynllunio ystyried goblygiadau'r iaith Gymraeg pan mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu paratoi, ac yn datgan ym mharagraff 2.3.1 "Dylai'r CDLI ystyried y Gymraeg a'r defnydd ohoni o safbwyt eu perthnasedd i ddefnydd tir. Y fecanwaith ar gyfer gwneud hynny yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) a'r prosesau cysylltiedig ar gyfer asesu safleoedd sy'n cael eu cynnal wrth barato'i'r cynllun. Lle bo'n berthnasol i ddefnydd tir, dylai'r AoG gynnwys asesiad o dystiolaeth o effeithiau strategaeth, polisiau a dyraniadau gofodol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni. Lle bo'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg neu amcanion eraill, gall Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) asesu a ddylid newid y strategaeth neu a ddylid nodi mesurau lliniaru yn y CDLI.
- 3.9 Un o nodau Llywodraeth Cymru yw gwrthdroi'r tueddiad lle mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn symud allan o Gymru. Creu swyddi i gynnal cymunedau a'r economi leol yw un ffordd o fynd i'r afael â hyn. Mae TAN 20 yn cyfeirio at hyn drwy ddweud "Gall gwasgariad y twf economaidd effeithio ar gymeriad cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau. Gallai polisiau sy'n sicrhau bod lefel ac ystod ddigonol o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys safleoedd ac eiddo, i gynnal a datblygu cymunedau lleol ddod â budd hefyd i'r Gymraeg".
- 3.10 O ystyried sylw strategaeth CDLI Sir y Fflint ar gyflogaeth, gall y cynllun gael dylanwad cadarnhaol, gan fod y cynllun yn canolbwytio ar dwf yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac yn ymdrechu i greu'r amodau i gynnal twf economaidd. Mae canolbwyt twf a datblygiad yn y CDLI yn y Prif Ganolfannau Gwasanaeth, Canolfannau Gwasanaeth Lleol ac Aneddiadau Cynaliadwy gan mai dyma'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy sy'n darparu ystod dda o wasanaethau a chyfleusterau, a lle mae (ac eithrio'r Wyddgrug) lefelau is yn gyffredinol o siaradwyr Cymraeg. Gan mwyaf, ceir cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg mewn nifer fach o gymunedau yn yr ardaloedd gwledig, fodd bynnag mae strategaeth y cynllun yn osgoi gosod lefelau twf anghynaliadwy yn yr aneddiadau bychain hyn, gan ganiatáu ar gyfer lefel

sensitif yn unig o ddatblygiadau fforddiadwy seiliedig ar anghenion lleol, a fyddai'n cael y fantais bosibl o beidio â gwanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

#### **4. Asesu'r angen am bolisi CDLI penodol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint**

##### **Lefelau Siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint**

- 4.1 Mewn cymhariaeth â gweddill Cymru, canran gymharol isel o boblogaeth Sir y Fflint sy'n gallu siarad Cymraeg. Adroddodd Cyfrifiad 2011 y gallai 13.2% o drigolion Sir y Fflint siarad yr iaith ac roedd y lefelau uchaf i'w gweld yn yr ardaloedd gwledig yn bennaf. Y cyfartaledd i Gymru drwyddi draw oedd 19%. Mae lefel y nifer sy'n siarad Cymraeg yn amrywio ar draws y Sir ac yn mynd o'r lefel isaf mewn rhannau o Saltney sydd ar y ffin â Lloegr, sef 6.1% i lefelau uwch na'r cyfartaledd ym mhrrif anheddiad yr Wyddgrug (20.6%), ynghyd â 7 o gymunedau eraill llai a mwy gwledig lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% - Gwernymynydd (19.5%), Trelawnyd a Gwaenysgor (26.2%), Treuddyn (24.4%), Chwifffordd (20.7%), Helygain (20.7%), Ffynnongroyw (22.9%), a Chaerwys (20.3%).
- 4.2 Yn gyffredinol, mae siaradwyr Cymraeg wedi gostwng mewn termau absolwt a chanran ers cyfrifiad 2001 (-1.2%), yn rhannol o ganlyniad i gwmp yn nifer y siaradwyr Cymraeg ond hefyd oherwydd cynnydd yn y rhai di-Gymraeg sy'n byw yn y Sir. Mae hwn yn ostyngiad is na'r hyn a welwyd drwy Gymru (-1.8%) dros yr un cyfnod. Mae Atodiad 1 yn dangos lefelau'r Gymraeg a siaredir ym mhob ward yn Sir y Fflint ar adeg cyfrifiad 2011.
- 4.3 Comisiynwyd ymchwil bellach gan yr ymgynghorwyr iaith, Sbectrwm, a edrychodd ar broffil ieithyddol Sir y Fflint er mwyn asesu lle gellid lleoli'r ardaloedd sensitif i iaith, y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y Sir, y cyd-destun polisi cynllunio a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru, barn Comisiynydd y Gymraeg, ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac awdurdodau cyffiniol.
- 4.4 O ran ei ddadansoddiad dyfnach o ddata'r cyfrifiad, canfu'r ymchwil "mae'n werth nodi fod gan yr Wyddgrug, sef canolfan weinyddol yr awdurdod lleol, ar gyfartaledd ym mhob un o'i wardiau, dros 20% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Gwelodd pob ward yn yr Wyddgrug gynnydd gwirioneddol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001-2011, a gwelodd tair o'r pedair ward hefyd gynnydd bychan o ran canran. Dangosodd Cyfrifiad 2011 hefyd gynnydd yn y canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg mewn 14 adran etholiadol, gyda'r cynnydd mwyaf ym Mhenarlâg (+2.00%), De'r Wyddgrug (+1.7%) a Gorllewin Shotton (+1.5%). Mae gan Sir y Fflint hefyd bum adran etholiadol gyda dros 500 o siaradwyr Cymraeg sy'n cynrychioli rhwydwaith sylweddol o bobl a all gyfathrebu'n rhwydd yn y Gymraeg. Mae'r rhain yn Ne'r Wyddgrug (810), Golftyn Cei Connah (570), Ewlo (575), Caerwys (507) a Llaneurgain (503)."

Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyflwyniad Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint

- 4.5 Dengys y dystiolaeth hon, er bod y cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gymharol fach, maent wedi'u hen sefydlu ac yn tyfu mewn rhai ardaloedd. Er bod yr Wyddgrug [yr anheddiad mwyaf gyda lefelau'r Gymraeg uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol] wedi gweld datblygiadau tai dros y blynnyddoedd diwethaf, yn ôl yr ymchwil, ni chafodd hyn effaith andwyol ar lefelau'r Gymraeg a siaredir yn y dref. Mae'r cyngor hwn yn awgrymu fod siarad Cymraeg yn yr Wyddgrug yn gadarn ac yn tyfu.
- 4.6 Nododd asesiad Sbectrwm o'r system addysg yn y sir fod yno 5 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg hirhoedlog. Mae'n bwysig nodi fod ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i darparu yn Shotton yn 2014, o ganlyniad i alw lleol, fel ysgol loeren i Ysgol Croes Atti, y Fflint (ysgol gyfrwng Cymraeg arall), 4 milltir i ffwrdd. Dengys hyn fod galw pendant am addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir ac yn amlwg, mae addysg i blant ac oedolion yn rhan hanfodol o gynnal yr iaith. Wedi dweud hynny, mae'r graddau y gall y CDLI ymateb yn uniongyrchol i alw o'r fath fel cynllun defnydd tir, wedi'u cyfyngu i'r polisiau darpariaeth a ddatblygyd gan Awdurdod Addysg y Sir, lle mae gan y CDLI o bosibl rôl hwyluso i ddatblygu ysgolion newydd lle y'u cynlluniwyd.
- 4.7 Er bod ymchwil iaith Sbectrwm felly wedi creu darlun cymharol gadarnhaol o gryfder a bywiogrwydd yr iaith yn Sir y Fflint, aeth ymlaen wedyn i haeru fod sector o siaradwyr Cymraeg sylweddol yn Sir y Fflint, ond yn wahanol i siroedd eraill, mae'r gymuned Gymraeg ei hiaith yn Sir y Fflint yn boblogaeth draddodiadol, gynhenid. Er gwaethaf holi am eglurder ar y pwyt hwn, nid yw'r Cyngor yn dal yn sicr o'r hyn y mae'n ei olygu.
- 4.8 Ychydig yn or-sym, cymharodd yr ymchwil iaith Sir y Fflint hefyd â nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru er mwyn canfod yr angen am bolisi penodol yn y CDLI "*Mae hefyd yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o awdurdodau lleol sydd â phroffil iaith debyg i Sir y Fflint sydd wedi cynnwys polisi iaith Gymraeg yn eu Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig awdurdodau cyfagos fel Wrecsam a Sir Ddinbych ond rhai pellach eto fel Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot. Ar ben hynny, mae'n adlewyrchu'r ffaith fod gan Sir y Fflint nifer sylweddol o hyd o gymunedau cynhenid sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol o ran canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa mewn awdurdodau lleol fel Caerffili a Rhondda Cynon Taf sydd â phroffiliau iaith tebyg i Sir y Fflint.* Ychydig iawn, os o gwbl, o gymunedau cynhenid sydd ar ôl yn yr ardaloedd awdurdodau lleol yma, lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredin fel yr iaith bob dydd. Byddai arbenigwyr iaith yn dadlau felly mai dyma'r gwahaniaeth allweddol rhwng awdurdodau lleol fel Sir y Fflint, Wrecsam, Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot o'u cymharu ag eraill, yn bennaf yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae canran sylweddol o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (yn bennaf o ganlyniad i dwf addysg cyfrwng Cymraeg a phatrymau cymudo) ond heb gymunedau Cymraeg traddodiadol ar ôl.
- 4.9 Tra'n cydnabod mai ymgynghorwyr iaith yw Sbectrwm ac felly nid oes ganddynt arbenigedd cynllunio, mae'r cyngor a roddwyd yn anghyson serch hynny gan nad yw'r casgliad uchod fel pe'n cael ei ategu gan eu hasesiad cadarnhaol

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghynllun Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**  
cynharach o'r iaith o'r data, ac nid yw wedi canfod unrhyw niwed i'r iaith o'r CDLI. Dyma'r casgliad a gafwyd hefyd gan yr AoG/AAS (gweler yr adrannau canlynol) ac o'r ddua safbwyt yna, nid oes cyfiawnhad felly am bolisi iaith penodol yn y CDLI.

### **Y Strategaeth a Ffefrir i CDLI Sir y Fflint**

- 4.10 Fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir i'r CDLI, gwnaed cryn dipyn o ymgysylltu ac ymgynghori cyn-adneuo er mwyn datblygu a phrofi 'cyfeiriad y daith' i strategaeth y cynllun, yn ogystal â'r opsiynau o ran maint a dosbarthiad y twf y dylai'r cynllun ddarparu ar eu cyfer. Mae strategaeth y cynllun wedi'i seilio ar weledigaeth a nifer o amcanion strategol lle mae amcan rhif 6 yn gwneud cyfeiriad penodol at Amddiffyn a chefnogi'r Iaith Gymraeg'. Yn y cam ymgysylltu am 'Negeseuon Allweddol', a'r ymgynghoriad ffurfiol ar Strategaeth a Ffefrir y cynllun, ni chafwyd sylwadau negyddol na chroes am yr egwyddor o amddiffyn yr iaith Gymraeg lle'n briodol, yn ogystal â'r angen i gymryd dull cymesur o gofio lefelau isel y rhai sy'n siarad Cymraeg yn Sir y Fflint. Er bod rhai sylwadau'n gofyn am well cyfle i ddysgu Cymraeg drwy ddarparu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid yw hyn o fewn rheolaeth uniongyrchol y CDLI gan y byddai hyn yn gofyn am gynigion gan Awdurdod Addysg y Cyngor. Lle'n briodol, gallai'r CDLI helpu o ran defnydd tir.
- 4.11 O ystyried yr uchod, cafodd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg ei chynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir i CDLI Sir y Fflint a gyhoeddwyd i ymgynghori arni ym mis Tachwedd 2017. Yr adeg honno roedd polisi STR5 Gwasanaethau, Cyfleusterau ac Isadeiledd yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel rhan o'r isadeiledd cymdeithasol sydd angen ei ddiogelu drwy fesurau lliniaru. Roedd Polisi STR10 hefyd yn cynnwys nod i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol y Sir, ac ymhlyg yn hyn roedd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Er bod y polisi hwn yn ymwneud â Thwristiaeth yn hytrach na datblygu tai, mae'n parchu'r ffaith fod y Gymraeg yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol y Sir.
- 4.12 Mae TAN20 yn nodi'n glir mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yw'r ffordd fwyaf addas o asesu effeithiau'r cynllun ar yr iaith Gymraeg. Yn y cam Strategaeth a Ffefrir, gwnaed Arfarniad o Gynaliadwyedd a oedd yn asesu gweledigaeth, amcanion a pholisiau strategol y cynllun, ac mewn perthynas ag unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, a chofnodwyd na ellid canfod effaith andwyol (neu niwed cynllunio) ar yr iaith.
- 4.13 Yr unig beth a argymhellwyd gan Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir oedd 4 mân newid o ran geiriad i helpu i wella effeithiolrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ym mholisiau STR4, STR6, STR10 a STR13. (Gweler atodiad 2)
- CDLI Adneuo Sir y Fflint**
- 4.14 Serch yr awgrym clir gan y dystiolaeth a ddaeth i law nad oedd Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg, nac yn wir yn achosi niwed cynllunio, gan mai'r tueddiad gan Awdurdodau Lleol eraill oedd cynnwys polisi math lliniaru penodol yn eu CDLI adneuo, a'r negeseuon cymysg gan yr ymchwil ieithyddol, gwnaed rhywfaint o waith cychwynnol i baratoi CDLI adneuo

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyflwyniad Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

Sir y Fflint i archwilio sut gallai polisi o'r fath gael ei ysgrifennu, pa niwed yr oedd yn ceisio'i liniaru, a beth fyddai'r camau lliniaru hynny.

- 4.15 Cafodd fersiwn gychwynnol gynnwr o'r CDLI adneuo ei hystyried gan Grŵp Strategaeth Cynllunio'r Cyngor, grŵp llywio mewnol i Aelodau, yn ei gyfarfod ar 14/12/18 a oedd yn cynnwys polisi drafft a geisiai ddarlunio os a sut oedd angen polisi penodol i liniaru'r effaith ar yr iaith Gymraeg, a beth fyddai'n ei gynnwys. O edrych yn ôl, roedd y polisi drafft a gynhyrchwyd yn fwy o adlewyrchiad o'r hyn yr oedd eraill wedi'i wneud yn eu cynlluniau, yn hytrach na bod yn benodol i Sir y Fflint nac yn wir asesu unrhyw niwed a ganfuwyd o'r sail dystiolaeth oedd yn dod i'r amlwg. Cododd hyn bryderon am gadernid, ynghyd â'r cwestiwn pam fod angen polisi os nad oedd y sail dystiolaeth yn dangos y byddai niwed, neu angen am bolisi.
- 4.16 Yn dilyn hyn, gwnaeth yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y dyraniadau tai arfaethedig yn y cynllun adneuo yn amlwg na chanfuwyd niwed i'r iaith gan unrhyw un o'r dyraniadau. Roedd hyn yn cynnwys asesu dyraniad mawr yn yr Wyddgrug, un o'r ardaloedd gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint. Daeth yr AoG/AAS i'r casgliad bod "Cyfraddau siaradwyr Cymraeg yn yr Wyddgrug ymhlið rhai o'r uchaf yn y Sir, ar tua 30.6% yn 2011 (ward De'r Wyddgrug), ac mae risg y byddai'r cyfraddau hyn yn cael eu gwanhau rywfaint o ganlyniad i effaith gronnsus datblygiadau yn yr Wyddgrug, er o ystyried fod mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg yma, gallai hefyd fod yn ffordd effeithiol o gynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg i nifer fawr o drigolion Sir y Fflint, yn dibynnu ar gynhwysedd ysgolion".
- 4.17 Drwyddi draw felly, ni chanfuwyd niwed i'r iaith gan yr AoG ac o ystyried fod TAN20 a PCC10 yn cyfeirio at ganlyniadau'r AoG fel ystyriaethau pwysig i sut y dylid delio â'r iaith Gymraeg yn y CDLI, roedd hyn yn arwydd hyd yn oed mwy amlwg o'r sail dystiolaeth o'r diffyg niwed ac felly'r diffyg angen am bolisi penodol yn y CDLI adneuo. Wedi dweud hynny, gan mai dim ond yr effaith o safleoedd a ddyrannwyd a ystyriwyd gan yr AoG, gwnaed gwaith pellach wedyn ar ganlyniadau'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol i weld a oedd tebygrwydd y byddai unrhyw hap-safleoedd yn ymddangos yn unrhyw rai o'r ardaloedd lle'r oedd y cyfrifiad wedi cofnodi lefelau uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg (gweler atodiad 3).
- 4.18 Gan fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn yn rhannau gwledig y Sir (ac eithrio'r Wyddgrug), ac nad oedd posiblwydd mawr o hap-safleoedd yn yr ardaloedd hyn fel y dangoswyd gan yr Astudiaeth Cynhwysedd Trefol, ystyrid ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yn sgil hap-ddatblygiadau.

## 5. Crynodeb a chasgliad

- 5.1 O ystyried yr uchod, y pwyntiau mwyaf perthnasol i'w tynnu o'r dystiolaeth o ran dod i gasgliad am yr angen am bolisi penodol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn y CDLI yw:
- Mae AoG y Strategaeth a Ffefrir yn awgrymu rhai mân newidiadau i rai o'r polisiau strategol i gynnwys cyfeiriad at yr iaith Gymraeg.
  - Nid yw AoG y Strategaeth a Ffefrir yn dangos effaith negyddol gyffredinol ar yr iaith Gymraeg. Daw'r AoG i'r casgliad fod naill ai dim effeithiau, effeithiau niwtral neu effeithiau cadarnhaol o'r CDLI. Ni thynnir sylw at unrhyw effeithiau negyddol o'r Polisiau Strategol.
  - Mae AoG y safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI adneuo yn dangos fod lleoliad datblygiad yn y Sir dros gyfnod y cynllun yn annhebygol o niweidio'r iaith ac yn gyffredinol fod y polisiau yn y cynllun yn debygol o gefnogi'r iaith.
  - Dengys y dystiolaeth o adroddiad Sbectrwm 2019 fod cymuned Gymraeg fywiog ac iach mewn rhannau o Sir y Fflint ac felly bod angen polisi iaith Gymraeg.
  - Mae Astudiaeth Cynhwysedd Trefol aneddiadau Haen 1, 2 a 3 a dadansoddiad pellach yn aneddiadau Haen 4 a 5 yn awgrymu nad oes unrhyw hap-safleoedd yn debyg o fod yn unrhyw un o'r ardaloedd lle mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, dros gyfnod y cynllun.
  - Nid oedd sylwadau ar gais cynllunio diweddar am 160 annedd ym Maes Gwern yn ward De'r Wyddgrug yn codi problemau effaith andwyol bosibl ar yr iaith Gymraeg.
- 5.2 Mae'n amlwg fod lefelau cyffredinol siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Serch hynny, mae yna ardaloedd yn y Sir lle ceir lefelau uwch o Gymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Drwyddi draw, mae'r dystiolaeth, ochr yn ochr â chanfyddiadau cyngor Sbectrwm, yn dangos darlun cymharol gadarnhaol o'r Gymraeg a siaredir yn y Sir. Nid yw'n codi pryder am iaith sy'n dirywio na niwed a ddigwyddodd o ganlyniad i ddatblygiad blaenorol, na chwaith a fydd yn digwydd o'r CDLI. Canfu AoG y Cynllun na fydd ei strategaethau a'i bolisiau yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg, ac y bydd yn creu amodau ar gyfer economi sy'n tyfu a fydd yn help i gadw a chreu cyfleoedd gwaith a allai yn eu tro gefnogi datblygiad yr iaith. Dangosodd golwg arall ar yr AoG oedd yn edrych ar bob un o'r safleoedd tai dyranedig yn y CDLI adneuo na fydd niwed yn cael ei wneud i'r iaith gan safleoedd datblygu unigol. Nid yw'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol a'r dadansoddiad canlynol wedi canfod hap-safleoedd tebygol yn y safleoedd mawr tebygol a allai fod yn niweidiol oherwydd eu maint.
- 5.3 Yn gyffredinol, nod y Cynllun yw sicrhau twf economaidd cynaliadwy, darparu swm a dosbarthiad sylweddol o ddatblygiad tai, cynnig tai fforddiadwy a gwarchod canolfannau trefi ac ardaloedd fel hybiau cymdeithasol. Ystyri'r y

bydd y mesurau hyn gyda'i gilydd yn creu'r amodau lle gall yr iaith Gymraeg barhau i dyfu a ffynnu.

- 5.4 Yng nghyd-destun y canfyddiadau uchod a'r cyngor yn PCC a TAN20, nid ystyrir fod angen i'r Cynllun gynnwys polisi sy'n ceisio lliniaru'r effaith ar yr iaith gan nad yw sail dystiolaeth y Cynllun yn dangos fod niwed o'r fath yn debygol. Wedi dweud hynny, fel y gall y cynllun adlewyrchu'n gyffredinol yr egwyddor gadarnhaol o gefnogi'r iaith Gymraeg, ychwanegwyd maen prawf at bolisi strategol STR4 (gweler isod) a fyddai'n ystyriaeth berthnasol wrth asesu cynigion datblygu lle darparwyd neu canfuwyd dystiolaeth benodol o'r effaith ar yr iaith. Daw hwn yn lle'r maen prawf a roddwyd yn wreiddiol ym mhobol STR6 yn y cam Strategaeth a Ffefrir, sydd bellach wedi ei dynnu oddi yno.

## STR4: Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Dylunio a Chreu Lleoedd

Er mwyn hybu a chreu llefydd cynaliadwy newydd, bydd pob datblygiad yn cael ei ddylunio i safon uchel yn unol ag egwyddorion dylunio creu lleoedd cynaliadwy a dylent gael cymeriad lleol, bod yn gynhwysol ac yn hygrych, a lliniaru ac addasu i newid hinsawdd.

I wneud hyn, dylai pob datblygiad:

- i. Gael ei ddylunio i fod yn addasadwy, yn ddiogel a hygrych, i ymateb i newid hinsawdd, ac o ran tai, addasu i anghenion sy'n newid dros amser;
- ii. Ymateb i'r cyd-destun a'r cymeriad lleol, parchu a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, a bod yn addas o ran graddfa, dwysedd, cymysgedd a chynllun;
- iii. Bod yn hygrych a chysylltiedig, gan ganiatáu symud yn hawdd;
- iv. Gwneud y defnydd gorau o dir, deunyddiau ac adnoddau;
- v. Cyfrannu at les cymunedau, yn cynnwys diogelu amwynder, tir y cyhoedd, darparu manau agored a hamdden, tirweddu a llefydd parcio mewn cyd-destunau preswyl;
- vi. Cynnwys seilwaith gwyrdd newydd a chysylltu â'r un sydd yno'n barod, hyrwyddo bioamrywiaeth;
- vii. Cynnwys lle bo modd effeithlonrwydd ynni ar y safle a chynhyrchu ynni adnewyddadwy;
- viii. Rheoli dŵr a gwastraff yn gynaliadwy.
- ix. **Sicrhau ei fod yn cefnogi a chynnal lles hirdymor yr iaith Gymraeg.**

**Atodiad 1****Canran Siaradwyr Cymraeg fesul ward Awdurdod Lleol Ffynhonnell: data  
Cyfrifiad 2011 i Sir y Fflint (Ystadegau Cymru)**

Sir y Fflint		13.2
Sir y Fflint	W05000180: Argoed	15.9
	W05000181: Aston	9.6
	W05000182: Dwyrain Bagillt	12.3
	W05000183: Gorllewin Bagillt	13.5
	W05000184: Gogledd-ddwyrain Brychdyn	8.5
	W05000185: De Brychdyn	9.3
	W05000186: Brynffordd	17.5
	W05000187: Bwcle Dwyrain Bistre	9.3
	W05000188: Bwcle Gorllewin Bistre	9.9
	W05000189: Mynydd Bwcle	11.5
	W05000190: Bwcle Pentrobin	10.9
	W05000191: Caergwrle	12.6
	W05000192: Caerwys	20.3
	W05000193: Cilcain	16.9
	W05000194: Canol Cei Connah	8.7
	W05000195: Golftyn Cei Connah	11.1
	W05000196: De Cei Connah	10.2
	W05000197: Gwepr Cei Connah	9.1
	W05000198: Ewlo	11.0
	W05000199: Ffynnongroyw	22.9
	W05000200: Castell y Fflint	11.6
	W05000201: Cwnsylt y Fflint	12.1
	W05000202: Oakenholt y Fflint	13.0
	W05000203: Trelawnwy y Fflint	11.7
	W05000204: Maes Glas	11.3
	W05000205: Gronant	15.9
	W05000206: Y Waun	15.4
	W05000207: Gwernymynydd	19.5

	<b>W05000208: Helygain</b>	<b>20.7</b>
	W05000209: Penarlâg	10.3
	W05000210: Kinnerton Uchaf	11.5
	W05000211: Canol Treffynnon	12.7
	W05000212: Dwyrain Treffynnon	15.7
	W05000213: Gorllewin Treffynnon	17.0
	W05000214: Yr Hob	13.4
	W05000215: Coed-llai	15.7
	W05000216: Llanfynydd	14.8
	W05000217: Mancot	9.5
	W05000218: Broncoed yr Wyddgrug	18.4
	W05000219: Dwyrain yr Wyddgrug	17.7
	<b>W05000220: De'r Wyddgrug</b>	<b>30.6</b>
	W05000221: Gorllewin yr Wyddgrug	16.6
	W05000222: Mostyn	18.2
	W05000223: New Brighton	13.5
	W05000224: Llaneurgain	17.1
	W05000225: Northop Hall	12.1
	W05000226: Pen-y-ffordd	10.9
	W05000227: Queensferry	9.0
	W05000228: Saltney Cyffordd yr Wyddgrug	7.8
	W05000229: Saltney Stonebridge	6.1
	W05000230: Sealand	7.5
	W05000231: Dwyrain Shotton	8.7
	W05000232: Shotton Uchaf	9.9
	W05000233: Gorllewin Shotton	9.4
	<b>W05000234: Trelawnyd a Gwaenysgor</b>	<b>26.2</b>
	<b>W05000235: Treuddyn</b>	<b>24.4</b>
	<b>W05000236: Chwitffordd</b>	<b>20.7</b>

Pwyntiau crynodeb o Dabl 1;

- Drwyddi draw mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Sir, 13.2% (mae Wrecsam 12.9%) islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (19%);

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyhoeddun Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

- Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol yn y cymunedau i gyd ond mae hi'n fwyaf amlwg yn ward De'r Wyddgrug ar 30% (Broncoed yr Wyddgrug 18.4%, Dwyrain yr Wyddgrug 17.7 % a Gorllewin yr Wyddgrug 16.6%)
- Mae sawl cymuned lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%, sef Gwernymynydd 19.5%, Trelawnyd a Gwaenysgor, 26.2%, Treuddyn 24.4%, Chwitffordd 20.7%, Helygain 20.7% , Ffynnongroyw 22.9%, a Chaerwys 20.3%
- Yn gyffredinol mae siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ers cyfrifiad 2001 (14.4% yn 2001 i 13.2% yn 2011), yn rhannol o ganlyniad i gwmp yn nifer y siaradwyr Cymraeg ond hefyd oherwydd cynnydd mewn siaradwyr di-Gymraeg sy'n byw yn y Sir;
- Mae siaradwyr Cymraeg yn tebygu i'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghymunedau Mostyn 18.2%, Gorllewin Treffynnon 17 %, Llaneurgain 17.1% a Brynffordd 17.5%. Broncoed yr Wyddgrug 18.4% a Dwyrain yr Wyddgrug 17.7%.

**Atodiad 2****Canfyddiadau'r AoG/AAS yn y camau strategaeth a ffefrir ac adneuo  
Asesiad Integredig ar Effaith y Strategaeth a Ffefrir – Yr Iaith Gymraeg**

Dangosydd / Targed 18 'Annog amddiffyn a hybu'r Iaith Gymraeg'

Mae Parag 1.6 – yn egluro sut mae'r Asesiad Integredig (IIA) yn dwyn ynghyd:

- Arfaniad o Gynaliadwyedd (AoG)
- Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Asesu'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesu'r Effaith ar lechyd

Yn Nhabl 3.4 Prif faterion a chyfleoedd cynaliadwyedd – nodir o safbwyt yr Iaith Gymraeg:

- Mater allweddol – Mae'n ymddangos fod medru'r Gymraeg ar gynnydd er bod mwy o gynnydd yn y rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg, sy'n awgrymu dirywiad cyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg yn y Sir
- Goblygiad / cyfle i'r cynllun – Dylid chwilio am gyfleoedd i gyflwyno'r Iaith Gymraeg i bobl

Mae Tabl 3.5 Fframwaith yr IIA yn gosod allan y mecanwaith i asesu'r Cynllun:

Amcan ac Is Amcan IIA	Dangosyddion	Targedau	Ffynhonnell	Cysylltu â llinynnau eraill yr IIA	Perthnasedd i nodau Llesiant
<b>18 Annog amddiffyn a hybu'r Iaith Gymraeg</b>					
<b>Cyfrannu at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Sir y Fflint</b>	Nifer llefydd ysgol cyfrwng Cymraeg Nifer oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y Sir	Cynyddu nifer y Llefudd ysgol cyfrwng Cymraeg	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050	Yr Iaith Gymraeg lechyd	Cymru lewyrchus Cymru gydneth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus
<b>Cyfrannu at gynnydd yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl ar draws Sir y Fflint</b> <b>Cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad</b>	Cyfraniadau CIL neu Gytundeb Adran 106 gan ddatblygiadau mawr mewn ardaloedd lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y Ward - gwersi	Cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Cynnydd mewn arwyddion a gwybodaeth			Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

<b>Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg</b>	neu weithgareddau cymunedol yn Gymraeg neu Addysg.  Nifer y busnesau sy'n arddangos arwyddion dwyieithog ac yn rhoi gwylodaeth hyrwyddo yn ddwyieithog	ddwyieithog ledled y Sir			
--	--	--------------------------	--	--	--

Mae Tabl 1.2 yn edrych ar Themâu Cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion yr IIA

Themâu sy'n berthnasol i IIA CDLI Sir y Fflint	Ffynhonnell					Prif bynciau'r IIA	Amcan IIA perthnasol
	Rhyngwladol ac Ewropeaid	Cenedlaethol (Cymru a'r DU)	Lleol	Goblygiadau i'r CDLI	Goblygiadau i'r IIA		
Hybu ac amddiffyn yr iaith Gymraeg		Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; Cymru'n Un – Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraeth u Cymru; Deddf Llesiant Cenedlaetha u'r Dyfodol (2015); Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl; Lleoedd Llewyrchus Llawn		Dylai'r CDLI gefnogi gweithgaredd au sy'n hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.	Dylai Fframwait h yr IIA gynnwys amcanion sy'n hybu'r iaith Gymraeg.	Y Boblogaeth a Threftadaeth Ddiwyllianol	18

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyhoeddun Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

	Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd; Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010					
--	---	--	--	--	--	--

Mae Atodiad B yn gosod allan y data gwaelodlin ac mae'r iaith Gymraeg yn ymddangos yn adran 'O'.

Mae Atodiad D yn gosod allan y sylwadau manwl ar bolisiâu strategol;

Polisi	Sylwadau	Potensial Lliniaru
STR1 Twf Strategol STR2 Lleoliad Datblygiadau	O ystyried STR2, gall argaeedd tai cynyddol mewn ardaloedd economaidd twf megis Glannau Dyfrdwy, ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru a all wanhau siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal wrth i fwy o dai fforddiadwy yn arwain at ostyngiad ym mhrisiau tai a'r bwlc mewn cyflogau cyfartalog, olygu ei bod yn ariannol hyfyw iddynt aros yn Sir y Fflint.	Aneglur am liniaru ar hyn o bryd
STR3 Safleoedd Strategol Northern Gateway	Gallai cynnydd mewn argaeedd tai mewn ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd gwaith ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru a all wanhau siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal wrth i fwy o dai fforddiadwy yn arwain at ostyngiad ym mhrisiau tai a'r bwlc mewn cyflogau cyfartalog olygu ei bod yn ariannol hyfyw iddynt aros yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, gyda'r safle hwn mor agos i'r ffin â Lloegr, effaith niwtral sy'n fwyaf tebygol.	
Warren Hall	Gallai cynnydd mewn argaeedd tai mewn ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd gwaith ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru a all wanhau siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal wrth i fwy	

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

	<p>o dai fforddiadwy yn arwain at ostyngiad ym mhrisiau tai a'r bwlc mewn cyflogau cyfartalog olygu ei bod yn ariannol hyfyw iddynt aros yn Sir y Fflint. Dim ond 8km o Gaer y mae'r safle, felly gallai lastwreiddio'r iaith a'r diwylliant ymhellach.</p>	
STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Dylunio	Gall amcan y polisi i geisio gwarchod safleoedd treftadaeth yn yr ardal gynyddu'r diddordeb mewn treftadaeth Gymreig. Gallai hyn olygu fod mwy am siarad yr iaith er nid yw hyn yn sicr nac yn debygol iawn. Yn gyffredinol, nid yw amdiffyf y Gymraeg yn amcan allweddol yn y polisi hwn.	Gellid ymestyn y polisi i ymdrin â'r iaith Gymraeg hefyd fel thema cynaliadwyedd[AW1].
STR5 Trafnidiaeth a Hygyrchedd	Gallai fod effaith ansicr ar yr amcan hwn. O bosibl gallai gwella hygyrchedd a thrafnidiaeth yn Sir y Fflint a gyda'i chymdogion wanhau'r iaith ymhellach drwy gynyddu'r teithio traws-ffiniol ond nid yw hyn yn sicr.	Aneglur pa liniaru gellid ei gynnig ar y cam hwn.
STR6 Gwasanaethau, Cyfleusterau ac Isadeiledd	Mae'r polisi yn rhagweithiol yn hybu'r iaith Gymraeg ac yn tynnu sylw at ei phwysigrwydd ond nid yw'n dangos sut bydd yn gwireddu'r amcan hwn. Dim ond amlinelliad byr a geir yng nghyflwyniad y polisi, heb unrhyw wybodaeth am sut y'i gweithredir.	Gellid gwella effaith y polisi ar hybu'r iaith Gymraeg drwy dynnu sylw at ba ddulliau fydd gan y Cyngor i sicrhau ei bod yn cael ei hamddiffyf a sut gall taliadau CIL helpu gyda hyn.
STR7 Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth	Nod y polisi yw sbarduno twf economaidd yn Sir y Fflint a all ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru. Gallai hyn wanhau siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal wrth i fwy o dai fforddiadwy yn arwain at ostyngiad mewn prisiau tai a'r bwlc cyflog cyfartalog, olygu ei bod yn ariannol hyfyw iddynt aros yn Sir y Fflint.	Aneglur pa liniaru gellid ei gynnig ar y cam hwn.
STR8 Darparu Tir Cyflogaeth	Mae'r polisi'n darparu tir i helpu i sbarduno twf economaidd a all ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru. Gallai hyn wanhau siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd ddod â swyddi i bobl leol a sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal.	Aneglur pa liniaru gellid ei gynnig ar y cam hwn.
STR9 Canolfannau Manwerthu a Datblygu	Mae posibilrwydd y byddai budd i amcan yr iaith Gymraeg. Byddai crynhoad o amrywiaeth o ddefnyddiau mewn lleoliadau canol tref yn cyfrannu at fywiogrwydd a hyfwedd ardaloedd o'r fath, a fyddai yn eu tro yn arddangos canran uwch o breswylwyr Sir y Fflint i siaradwyr Cymraeg eraill.	

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyflwyniad Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint**

	Gallai hyn greu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.	
STR10 Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden	Drwy sicrhau gwarchod a chyfoethogi ardaloedd o Gymru oherwydd eu gwerth byd natur neu hanesyddol, gallai hyn fod o fantais anuniongyrchol i hybu'r iaith Gymraeg. Mae cyfran fawr o'r rhannau hyn o Sir y Fflint mewn ardaloedd gwledig a thrwy arallgyfeirio'r economi wledig, gellid annog y siaradwyr Cymraeg presennol i aros yn yr ardal.	Gellid gwella'r polisi felly drwy dynnu sylw at bwysigrwydd cynnal y diwylliant Cymraeg yn ogystal â'r mannau hanesyddol ac amgylcheddol.
STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy	Nod y polisi yw ysgogi twf economaidd yn Sir y Fflint a all ddenu unigolion/teuluoedd o'r tu allan i Sir y Fflint a Chymru. Gallai hyn wanhanu siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Ond, gallai hefyd sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn aros yn yr ardal wrth i fwy o dai fforddiadwy yn arwain at ostyngiad mewn prisiau tai a'r bwlch cyflog cyfartalog, olygu ei bod yn ariannol hyfyw iddynt aros yn Sir y Fflint.	Aneglur pa liniaru gellid ei gynnig ar y cam hwn
STR12 Darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr	Mae'n aneglur ar hyn o bryd pa fedr iaith Gymraeg sydd yna o fewn y gwahanol grwpiau yn y gymuned deithio ac felly penderfynwyd ar effaith aneglur.	
STR13 Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau Gwyrdd ac Isadeiledd	Gall amcan y polisi i geisio amddiffyn asedau treftadaeth helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg.	Gallai'r polisi gael ei wella felly drwy sôn yn benodol am ddiwylliant a threftadaeth Gymreig.
STR14 Newid Hinsawdd a Gwarchod yr Amgylchedd	Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng yr amcan hwn a'r polisi.	Ni chynigir lliniaru.
STR15 Rheoli Gwastraff	Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng yr amcan hwn a'r polisi.	Ni chynigir lliniaru.
STR16 Cynllunio Strategol ar gyfer Mwynau	Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng yr amcan hwn a'r polisi.	Ni chynigir lliniaru

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Datblygu Lleol  
Adneuo Sir y Fflint**

### Sylwadau'r IIA ar ddyraniadau

Nid yw tabl yr asesiad cryno yn dangos symbol negyddol i unrhyw un o'r dyraniadau arfaethedig, yn wir maent i gyd yn ymddangos yn 'wyrdd' neu'n gadarnhaol.

Cyf. safle	SA1Crime	SA2Education	SA3Health	SA4Housing	SA5Access	SA6Community	SA7Economy	SA8Employment	SA9Rural life	SA10Biodiversity	SA11Landscapes	SA12Heritage	SA13Water	SA14Floods	SA15Air & GHG	SA16Energy	SA17Resource	SA18Waste
<b>BUC030/03</b>  <b>7</b>	-	+	++	++	-	-	O	++	O	-	--	O	-	O	-	-	-	+
	-	+	++	++	+	-	O	++	O	-	-	O	O	O	-	-	-	+
<b>BU031</b>	O	+	+	++	+	++	O	++	O	-	-	O	-	-	-	-	-	+
	O	+	+	++	+	++	O	++	O	-	-	O	O	O	-	-	-	+
<b>CON002</b>	-	+	+	+	+	++	O	++	O	-	-	O	-	O	-	-	-	+
	-	+	+	+	+	++	O	++	O	-	-	O	O	O	-	-	-	+
<b>CON093</b>	-	++	+	++	-	++	O	++	O	-	-	O	O	O	-	-	-	+
	-	++	+	++	+	++	O	++	O	O	-	O	O	O	-	-	-	+
<b>MOL020/0</b>  <b>57</b>	O	++	++	++	++	++	O	++	O	-	-	-	--	O	-	-	-	++
	O	++	++	++	++	++	O	++	O	-	-	-	-	O	-	-	-	++
<b>MOL044 &amp; MOL045</b>	-	+	+	++	+	-	O	++	O	-	--	-	--	-	-	-	-	++
	-	+	+	++	+	-	O	++	O	-	-	O	-	-	-	-	-	++

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Lloegr Lleol Adneuo Sir y Fflint**

EWL017	O	+/-	-	++	-	++	O	++	O	-	--	O	-	--	-	-	-	+
	O	+/-	+	++	+	++	O	++	O	-	-	O	O	-	-	-	-	+
EWL020	O	+/-	+	+	+	++	O	++	O	-	-	O	--	--	-	-	-	+
	O	+/-	+	+	+	++	O	++	O	-	-	O	-	-	-	-	-	+
HWN005	O	+/-	++	++	+	-	O	+	O	-	-	--	--	-	-	-	-	+
	O	+/-	++	++	+	-	O	+	O	-	-	-	-	-	-	-	-	+
HCAC004	O	++	+	+	-	-	O	+	O	--	-	-	--	-	-	-	-	+
	O	++	+	+	+	-	O	+	O	-	-	-	-	-	-	-	-	+
NEW013	O	+	++	++	++	-	O	+	O	-	-	-	-	--	-	-	-	+
	O	+	++	++	++	-	O	+	O	-	-	-	O	-	-	-	-	+
PEN038	O	++	+	++	-	++	O	+	O	-	-	O	--	O	-	-	-	+
	O	++	+	++	+	++	O	+	O	-	-	O	-	O	-	-	-	+
Cyf. safle	SA1Crime	SA2Education	SA3Health	SA4Housing	SA5Access	SA6Community	SA7Economy	SA8Employment	SA9Rural Life	SA10Biodiversity	SA11Landscapes	SA12Heritage	SA13Water	SA14Floods	SA15Air & GHG	SA16Energy	SA17Resource	SA18Waste
EM1(12)	--	-	+	++	-	-	++	++	O	--	--	-	--	--	-	-	--	O
	--	++	+	++	+	-	++	++	O	-	-	-	-	--	-	-	-	O
BROU011	O	-	+	++	+	-	++	++	O	--	--	-	--	--	-	-	--	O
	O	++	+	++	+	-	++	++	O	--	-	-	-	-	-	-	-	O

O ran yr asesiadau safle manwl unigol, ceir manylion am y safleoedd mwyaf perthnasol isod. Cafodd y ddu safle sgôr gwyrdd h.y. effaith gadarnhaol, ond mae sylwebaeth ychwanegol ar y ddu o safbwyt effeithiau cronus.

Maes Gwern Yr Wyddgrug:

Sylwadau Cronnus

Mae'r Safle hwn yn un o ddu safle a ddyrannwyd yn yr Wyddgrug. Mae'r safle arall, MOL044 a MOL045, wedi'i leoli ar ymlym gogledd-orllewinol yr Wyddgrug (h.y. ar ochr gyferbyn y dref). Ystyri mai annhebygol felly fyddai effeithiau cronus sylwedol, er mae'n debyg y byddai pwysau cynyddol ar gynhwysedd ysgolion, yn cynnwys llefydd cyfrwng Cymraeg, yn yr Wyddgrug o ganlyniad i'r ddu safle.

Mae cyfraddau siaradwyr Cymraeg yn yr Wyddgrug ymhlið rhai o'r uchaf yn y Sir, tua 30.6% yn 2011, ac mae perygl y byddai'r cyfraddau hyn yn cael eu gwanhau i ryw raddau o ganlyniad i'r effaith gronus yn yr Wyddgrug,

**Papur Cefndir CDL12: Penderfynu ar Ddull Polisi'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Lleol Adneuo Sir y Fflint**

er o ystyried fod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn hygrych yma, gallai hefyd fod yn fodd effeithiol o ddarparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i nifer fawr o breswylwyr Sir y Fflint.

**Ffordd Dinbych, Yr Wyddgrug:**

Sylwadau Cronnus

Mae'r Safle hwn yn un o ddau safle a ddyrannwyd yn yr Wyddgrug. Mae'r safle arall, MOL020, wedi'i leoli ar ymyl de-orllewinol yr Wyddgrug (h.y. ar ochr gyferbyn y dref). Ystyri mai annhebygol felly fyddai effeithiau cronus sylweddol.

Mae cyfraddau siaradwyr Cymraeg yn yr Wyddgrug ymhlið rhai o'r uchaf yn y Sir, tua 30.6% yn 2011, ac mae perygl y byddai'r cyfraddau hyn yn cael eu gwanhau i ryw raddau o ganlyniad i'r effaith gronnu yn yr Wyddgrug, er o ystyried fod mynediad da i ysgolion cyfrwng Cymraeg yma, gallai hefyd fod yn fodd effeithiol o ddarparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i nifer fawr o drigolion Sir y Fflint yn dibynnau ar faint o le sydd yn yr ysgolion.

STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Dylunio	Gall amcan y polisi o geisio amddiffyn safleoedd treftadaeth yn yr ardal gynyddu'r diddordeb mewn treftadaeth Gymreig. Gallai hyn olygu mwy o bobl yn dysgu'r iaith er bod hyn yn ansicr ac yn annhebygol. Yn gyffredinol, nid yw amddiffyn yr iaith Gymraeg yn un o brif amcanion y polisi hwn.	Gellid ymestyn y polisi i gynnwys hefyd yr iaith Gymraeg fel thema cynaliadwyedd [AW1]
STR6 Gwasanaethau, Cyfleusterau ac Isadeiledd	Mae'r polisi yn rhagweithiol yn hybu'r Gymraeg ac yn tynnu sylw at ei phwysigrwydd ond nid yw'n dangos sut y bydd yn gwreddu'r amcan hwn. Dim ond amlinelliad bras a geir yng nghyflwyniad y polisi, heb unrhyw wybodaeth am sut bydd yn cael ei weithredu.	Gellid gwella effaith y polisi ar hybu'r Gymraeg drwy dynnu sylw at drwy ba foddy fydd y Cyngor yn sicrhau ei bod yn cael ei hamddiffyn a'i hannog a sut gall taliadau CIL helpu gyda hyn.
STR10 Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden	Drwy sicrhau fod ardaloedd o Gymru'n cael eu gwarchod oherwydd eu diddordeb byd natur neu hanesyddol, gallai hyn fod o fantais anuniongyrchol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae cyfran uchel o'r rhannau hyn o Sir y Fflint mewn ardaloedd gwledig a thrwy arallgyfeirio'r economi wledig, gallai'r siaradwyr Cymraeg presennol gael eu hannog i aros yn yr ardal.	Gallai'r polisi gael ei wella felly drwy dynnu sylw at bwysigrwydd cynnal y diwylliant Cymraeg yn ogystal â'i mannau hanesyddol ac amgylcheddol.
STR13 Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau Gwyrdd ac Isadeiledd	Gall amcan y polisi i geisio amddiffyn asedau treftadaeth helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth, diwylliant ac iaith Cymru.	Gallai'r polisi gael ei wella felly drwy sôn yn benodol am y dreftadaeth ddiwylliannol Gymreig.

### Atodiad 3: Astudiaeth Cynhwysedd Trefol – y posibilrwydd fod hap-ddatblygiadau yn effeithio ar ardaloedd gyda lefelau uwch na'r cyffredin o siaradwyr Cymraeg

#### Cyflwyniad

Cafodd yr ardaloedd a ganfuwyd fel rhai â lefel y siaradwyr Cymraeg uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% eu grwpio yn ôl eu safle yn hierarchaeth aneddiadau'r CDL1. Aseswyd canlyniadau'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol ar gyfer aneddiadau haenau 1-3 i weld a ydynt yn fwy tebygol o ddod ymlaen ar ffurf hap-safleoedd a fyddai'n gallu cynnwys mwy na 10 uned yn Ne'r Wyddgrug neu 5 uned mewn aneddiadau eraill. Ni wnaeth yr Astudiaeth Cynhwysedd Trefol asesu aneddiadau haen 4 a 5 felly defnyddiwyd ymarfer mapio desg i adnabod hap-safleoedd posibl.

#### 1 Prif Ganolfannau Gwasanaeth

Mae'r astudiaeth cynhwysedd trefol yn adnabod yr hap-safleoedd posibl canlynol:

Cyf	Enw'r safle	Defnydd presennol	Nifer unedau	sylwadau
<b>Yr Wyddgrug (ward De'r Wyddgrug)</b>				
175	Queens Park, Ffordd Hendy	Tir amaethyddol / dyraniad CDU	51	Nid yw'r safle'n ddeniadol i'r farchnad – yn fwy tebygol o ddod ymlaen gyda thir cyffiniol.
176	Tir yng nghornel Fir Grove / Park Avenue	Tir amwynder	2	Posibilrwydd o hap-safle bychan yn amodol ar ystyried colli tir amwynder
177	Drovers Arms, Ffordd Dinbych	Maes Parcio dros ben	1	Posibilrwydd o hap-safle bychan yn amodol ar ystyried colli lle parcio
179	D&S Motors Ffordd Dinbych	Garej – rhoi gwasanaeth i geir	2	Hap-safle bychan yn amodol ar argaeedd safle / adleoli'r defnydd presennol
183	Y Llyfrgell, Canolfan Daniel Owen	Llyfrgell bresennol	2	Annhebygol o fod ar gael
184	Alyn Meadows, Milford St / Love Lane	Tai presennol	2	Posibilrwydd o hap-safle bychan
186	Garejis, Maes Bodlonfa	Garejis presennol	3	Posibilrwydd o hap-safle bychan
187	Tir ger Maes y Dre, Ffordd Dinbych	Hen safle cyflogaeth	ddim yn berthnasol	Bellach â chaniatâd cynllunio
189	Caeau Llyn y Glyn, Ffordd Dinbych	maes glas	75	Safle'n annhebygol o ddod ymlaen – dŵr wyneb a pherygl llifogydd /

**Haen 2 Canolfannau Gwasanaeth Lleol**

Nid oes unrhyw ardaloedd / aneddiadau Sensitif i'r Iaith Gymraeg yn haen 2.

**Haen 3 Pentrefi Cynaliadwy**

Mae'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol yn adnabod yr hap-safleoedd canlynol:

Cyf	Enw'r safle	Defnydd presennol	Nifer unedau	Sylwadau
<b>Treuddyn</b>				
Er bod yr Astudiaeth Cynhwysedd Trefol yn adnabod 1 safle yng Nghanreg y Llech, nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigyrâu.				
<b>Caerwys</b>				
36	Hen garej, Stryd y Capel	Cyn adeilad masnachol	1	Posibilrwydd o hap-safle bychan
37	Tir y tu ôl i Stryd y Capel	Adeilad diwydiannol heb fawr o ddefnydd / gwag	2	Posibilrwydd o hap-safle bychan
38	Tafarn y Royal Oak	Rhan o faes parcio'r dafarn	1	Posibilrwydd o hap-safle bychan yn amodol ar ystyried colli llefydd parcio
39	Tir i'r gogledd o Stryd y Capel	Tir heb ei ddatblygu	1	Posibilrwydd o hap-safle bychan
40	Pen yr Ardd, Stryd Fawr	Tir ac adeiladau gwag	7	Posibilrwydd o hap-safle bychan ond cyn-ymgeisio 059433 ar gyfer 3 annedd yn unig
<b>Ffynnongroyw</b>				
89	Tir rhwng yr A548 a'r Briffordd	Tir heb ei ddatblygu	28	Tir maes glas mewn parth llifogydd C1, ni fyddai'n bodloni'r profion yn TAN15.
90	Cyn Nationwide Caravan Rental Sales	Tir gwag a ddatblygwyd yn flaenorol	1	Posibilrwydd o hap-safle bychan
91	Tir gyferbyn â'r Crown Inn, y Brif Ffordd	Tir preswyl	9	Aneglur a yw'r cyfan yn dir llwyd felly mae'n bosibl fod problem perygl llifogydd / ardal gadwraeth / safle bywyd gwylt cyfagos / aml berchnogaeth – annhebygol o ddod ymlaen yn llwyr ond o bosibl yn rhannol.

**Haen 4 – Pentrefi Diffiniedig**

